OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2015 Rhif 655 (Cy. 52)

# ARDRETHU A PHRISIO, CYMRU

## Rheoliadau Ardrethu Annomestig (Hysbysiadau Galw am Dalu) (Cymru) (Diwygio) 2015

| | |
|---|---|
| *Gwnaed - - - -* | *9 Mawrth 2015* |
| *Gosodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru - -* | *11 Mawrth 2015* |
| *Yn dod i rym - -* | *1 Ebrill 2015* |

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddwyd i'r Ysgrifennydd Gwladol gan adrannau 62 a 146(6) o Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol(**1**)1988 a pharagraffau 1 a 2(2) o Atodlen 9 iddi ac adran 26(3) o Ddeddf yr Iaith Gymraeg 1993(**2**), ac a freiniwyd bellach yng Ngweinidogion Cymru(**3**), yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn:

### Enwi, cychwyn a chymhwyso

**1.**—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Ardrethu Annomestig (Hysbysiadau Galw am Dalu) (Cymru) (Diwygio) 2015.

(2) Daw'r Rheoliadau hyn i rym ar 1 Ebrill 2015.

### Diwygio Rheoliadau Ardrethu Annomestig (Hysbysiadau Galw am Dalu) (Cymru) 1993

**2.**—(1) Mae Atodlen 2 i Reoliadau Ardrethu Annomestig (Hysbysiadau Galw am Dalu) (Cymru) 1993(**4**) wedi ei diwygio fel a ganlyn.

(2) Ym mharagraff 1 o Ran 1 i'r Atodlen, ar ôl yr adran "Small Business Rate Relief", yn lle "Non-Domestic Rating (Small Business Relief) (Wales) Order 2008" rhodder "Non-Domestic Rating (Small Business Relief) (Wales) Order 2015"

(**1**) 1988 p. 41. Amnewidiwyd paragraff 2(2)(g) i (ge) i Atodlen 9 o Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1988 gan adran 139 o Ddeddf Llywodraeth Leol a Thai 1989 (p. 42) ac Atodlen 5 iddi. Mewnosodwyd paragraff 2(2)(gf) i Atodlen 9 o Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1988 gan adran 8(2) o Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 2012 (c. 17).

(**2**) 1993 p. 38.

(**3**) Trosglwyddwyd pwerau'r Ysgrifennydd Gwladol, mewn perthynas â Chymru, i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gan Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S. 1999/672), *gweler* y cyfeiriad at Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1988 yn Atodlen 1. Trosglwyddwyd swyddogaethau Cynulliad Cenedlaethol Cymru i Weinidogion Cymru o dan adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p. 32) a pharagraff 30 o Atodlen 11 iddi.

(**4**) O.S. 1993/252, a ddiwygiwyd gan O.S. 1995/284, 1996/311, 1996/1880, 1997/356, 1998/155, 2000/793 (Cy. 30), 2003/414 (Cy. 59), 2005/256 (Cy. 22), 2006/3392 (Cy. 311), 2007/3399 (Cy. 303), 2008/7 (Cy. 3), 2008/3075 (Cy. 269), 2010/271 (Cy. 34), 2010/2582 (Cy. 216), 2012/466 (Cy. 77) a 2012/467 (Cy. 78).

(3) Ym mharagraff 1 o Ran 2 i'r Atodlen ar ôl yr adran "Rhyddhad Ardrethi i Fusnesau Bach", yn lle "Gorchymyn Ardrethu Annomestig (Rhyddhad Ardrethi i Fusnesau Bach) (Cymru) 2008" rhodder "Gorchymyn Ardrethu Annomestig (Rhyddhad Ardrethi i Fusnesau Bach) (Cymru) 2015".

*Leighton Andrews*
Y Gweinidog Gwasanaethau Cyhoeddus, un o Weinidogion Cymru

9 Mawrth 2015

## NODYN ESBONIADOL

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

Mae Rheoliadau Ardrethu Annomestig (Hysbysiadau Galw am Dalu) (Cymru) 1993 ("Rheoliadau 1993") yn darparu ar gyfer cynnwys yr hysbysiadau galw am dalu, a ddyroddir gan awdurdodau bilio (cynghorau sir a chynghorau bwrdeistref) yng Nghymru, ac ar gyfer yr wybodaeth sydd i'w rhoi pan fyddant yn cyflwyno hysbysiadau o'r fath.

Mae'r Rheoliadau hyn, sy'n gymwys o ran Cymru, yn diwygio Rheoliadau 1993 drwy roi cyfeiriadau at Orchymyn Ardrethu Annomestig (Rhyddhad Ardrethi i Fusnesau Bach) (Cymru) 2015 yn lle cyfeiriadau at Orchymyn Ardrethu Annomestig (Rhyddhad Ardrethi i Fusnesau Bach) (Cymru) 2008.

Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys mewn perthynas ag ardrethi sy'n daladwy ar ôl 31 Mawrth 2015.